Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 16 MAWRTH 2009

Mae ein harddangosfa ddiweddaraf, Same Difference, yn parhau yma ac yn swyno pawb sy'n ei gweld. Mae'n gasgliad lliwgar o waith celf a grëwyd gan blant yn ystod gweithdai celf arbennig a gynhelir gan Same Difference yn rhai o wledydd tlota'r byd ac yn y DU. Mewn gwledydd megis Bolifia, Palesteina a Burkina Faso, nod y gweithdai yw hybu hyder a hunanwerth plant sy'n byw gyda HIV/AIDS, gwrthryfel, anabledd a thlodi eithafol gan roi cyfle iddynt fynegi eu hunain. Yn y DU, defnyddir y gweithdai i godi ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol a sut mae plant yn byw mewn gwledydd eraill. Ym mhob gweithdy, mae'r plant yn creu llun ar un ochr o gerdyn ac yn ateb tri chwestiwn ar yr ochr arall – a'r atebion hyn sy'n pwysleisio'r hyn sy'n wahanol ac yn debyg rhwng y plant i gyd.

Bellach, mae plant o Ysgol Cwmpadarn, Ysgol Llanafan, Ysgol Rhydypennau ac Ysgol Sant Padarn wedi mynychu gweithdaiy celf yma ac mae eu gwaith hwythau hefyd i'w gweld yn y Morlan. Unwaith i'r arddangosfa adael y Morlan bydd pob un o'r cardiau hyn yn cael eu sganio a'u rhoi ar wefan Same Difference (www.is-samedifference.co.uk) a bydd rhai o'r cardiau yn cael eu hychwanegu at yr arddangosfa ac yn teithio i bob math o lefydd gwahanol – y tro cyntaf i'r Gymraeg fod yn rhan o'r arddangosfa unigryw hon.

Peidiwch â cholli'r cyfle i bigio i mewn i'w gweld felly – cewch chi mo'ch siomi. Mae hi yma tan 2 Ebrill ond ni fydd yn agored i'r cyhoedd ar 23-24 Mawrth, 28 Mawrth na 31 Mawrth.

Nodir gweddill y digwyddiadau isod.

FFORWM 50+ (Cyngor Sir Ceredigion)
2.00-5.00, Dydd Mercher, 25 Mawrth
Cyfarfod misol i drafod materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

PA MOR WYRDD YW CYNGOR SIR CEREDIGION?
7.00, nos Iau, 26 Mawrth
Cyfarfod cyhoeddus gyda Chyngor Sir Ceredigion a Grŵp Trefi Trosiannol Aberystwyth.

CYMHORTHFA MARK WILLIAMS, AS
10.00-12.00, bore Gwener, 27 Mawrth
Cysylltwch â swyddfa'r Democratiaid Rhyddfrydol am wybodaeth bellach (01970-615880).

TWMPATH DAWNS – gyda Nigel Hardy yn galw
7.30-9.00, nos Sadwrn, 28 Mawrth
Mynediad trwy gyfraniad, bydd amryw eitemau ar werth a lluniaeth ysgafn ar gael. Elw at Ieuenctid Cymru i Lourdes.

CYFLWYNIAD PASG CLWB HWYL HWYR
3.00-5.00, dydd Llun, 30 Mawrth

CWM: ARDDANGOSFA GELF Y LLUNWYR LLUNIAU
9.00-4.00, Llun i Gwener, 1 Ebrill-12 Mai
Cyfle i weld a phrynu darnau diweddaraf y grŵp o artistiaid sy'n gweithio ger Aberystwyth. Agorir yr arddangosfa'n swyddogol mewn bore coffi ar ddydd Sadwrn, 4 Ebrill.

THE FACE: JESUS IN ART
7.00, nos Fawrth a nos Fercher, 7-8 Ebrill
I ddathlu'r Pasg eleni, bydd y Morlan yn dangos y ffilm ddogfen hon ar ddwy noson. Mae'r ffilm yn olrhain y ffyrdd gwahanol y mae Iesu wedi ei gynrychioli mewn celf drwy hanes ac ar draws y byd. Yn gofnod unigryw o weithiau celf a henebion o'r drydedd ganrif ymlaen, cawn ein tywys o Rufain Hynafol i America'r 20fed ganrif, o Ewrop i'r Dwyrain Canol er mwyn gweld y portreadau mwyaf hardd a thrawiadol o Iesu a'i storïau. Disgrifir y ffilm fel: *"Gwers ysgubol a gweledol hudol mewn hanes celf ... rhaglen ddogfen o ddyfnder a harddwch anhygoel sy'n cyffwrdd pawb sy'n ei phrofi."* Adroddir yr hanes gan Mel Gibson, Edward Herrmann, Star Herrmann, Juliet Mills, Ricardo Montalban, Bill Moyers a Patricia Neal. Mynediad am ddim ond gwahoddir cyfraniadau.

Hefyd, nodwch yn eich dyddiaduron y cynhelir digwyddiad i godi arian i'r Morlan am 7.30, nos Lun, 18 Mai, sef noson o farddoniaeth gydag Iwan Llwyd a Meirion MacIntyre Huws.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr